# Cymdeithas Llandaf

# The Llandaff Society



ATODIAD COFFAOL

**DAETH Y NEWYDDION AM FARWOLAETH Y FRENHINES ELIZABETH II WRTH I'R CYLCHLYTHYR HWN GAEL EI GWBLHAU**

**Mae'r cerfiad hwn o ben y Frenhines wedi bod ar gorbel deheuol ein heglwys gadeiriol ers blwyddyn ei choroni.**

**Dyma'r diweddaraf mewn rhes ddi-dor o frenhinoedd gynrychiolir gynta ar gorbel y gogledd yn adnewyddiad John Prichard yn y G19eg.**

Byddai'n ddiangen ceisio yma ychwanegu at yr hyn sydd wedi'i ysgrifennu ym mhob gwasg a'r cyfryngau, gan ddathlu'r enghraifft wych o frenhiniaeth gyfansoddiadol a osodwyd gan ein Brenhines,wrth wneud ei hun yn wasanaethferch mor selog i'w dinasyddion niferus.



Tra'n cydnabod bod gan ein haelodau ystod eang o agweddau tuag at sefydliad y frenhiniaeth, dyn ni'n hyderus ein bod ni i gyd fel cymuned yn ymuno â'n gilydd i ddweud

**"DIOLCH MA'AM, AM EICH GWASANAETH"**

Ymunwn â phawb o ewyllys da i ddymuno rhwydd hynt Duw i Frenin Siarl III wrth iddo gychwyn ar ei dasg dyngedfennol o ddilyn yr hyn a fu efallai y teyrnasiad mwyaf yn hanes cyfansoddiadol yr ynysoedd hyn.

Deallwn y bydd ei ddelw gerfiedig yn cymryd ei le yn fuan ar gorbel y gogledd

# CYNNIG O GYDYMDEIMAD CYNGOR CAERDYDD

Mewn Cyfarfod Arbennig o Gyngor Caerdydd ar 13eg eg Medi 2022 cynigiwyd y canlynol gan: Y Cynghorydd Huw Thomas (Arweinydd y Cyngor) Eiliwyd gan: Y Cynghorydd Adrian Robson (Arweinydd yr Wrthblaid)

**"Mae'r Cyngor hwn yn mynegi ei dristwch dwys am farwolaeth Ei Mawrhydi y Frenhines ac yn cydymdeimlo'n ddiffuant â'i Fawrhydi'r Brenin ac aelodau eraill o'r Teulu Brenhinol. Rydym yn cydnabod ymrwymiad parhaus Ei Mawrhydi i wasanaeth cyhoeddus a dyletswydd, gan gynnwys ei chefnogaeth i lawer o elusennau a sefydliadau Cymreig, a'i chysylltiad gydol oes â Chymru a'i phobl."**

## Wrth siarad o blaid y cynnig, cynigiodd Cynghorydd Llandaf, Sean Driscoll y geiriau hyn:

"Ar ran y trigolion yr wyf yn eu cynrychioli yn Llandaf, hoffwn ddiolch i chi am y cyfle hwn i dalu ein parch i'w Mawrhydi y Frenhines Elizabeth II. Yr wythnos hon, ar draws ein dinas, y genedl a'r byd, mae loes calon i'w deimlo ar farwolaeth ein hannwyl Frenhines. Clywais ddweud mai y frenhines Elizabeth II oedd y frenhines fwyaf a deyrnasodd erioed ; un o'r merched mwyaf nodedig a fu erioed. Oes o wasanaethu ei gwlad; gwraig a brenhines anghymharol a chanddi ymdeimlad diwyro o ddyletswydd anhunanol a oedd rhwng cenedlaethau; y gallu i gysylltu â phobl, yn enwedig pobl ifanc.'

Arglwydd Faer, cytunaf yn llwyr â hyn"

# LLANDAF YN CROESAWU'R BRENIN CHARLES III YNG NGHYMRU

Dydd Llun Medi 11eg rhoiodd y gorsafoedd teledu cenedlaethol Llandaf ar flaen ac yng nghanol eu darlledu newyddion trwy gyflwyno o'n Cathedral Green ni. Roedd y Stryd Fawr, Heol y Pavin ac Heol Fair i gyd wedi'u cau â chonau traffig melyn newydd sbon. Roedd tîm chwilio heddlu elitaidd yn cynnal ymgyrch-diogelwch ledled yr ardal, ac roedd unedau camera arbennig yn cael eu gosod ar bolion lampau oedd wedi'u gwifro'n arbennig fisoedd ynghynt wrth ragweld yr achlysur arbennig hwn.

Roedd cyffro mawr yn yr ardal i gyd gyda gweithwyr Cyngor mewn siacedi hi-viz; contractwyr sgaffaldiau, peintwyr polion lamp, symudwyr bunting welodd eu dyddiau gorau, llenwyr tyllau yn y ffordd, crafwyr tarmac a thimau clirio chwyn, i gyd yn rhuthro i ddod â'r ardal i'r safon oedd yn ofynnol i groesawu ein Tywysog Cymru gynt fel ein Brenin newydd. Gweithred ragodus gyntaf Ei Fawrhydi yng Nghymru oedd cymryd rhan mewn gwasanaeth coffa aml-ffydd yn ein Cadeirlan fore dydd Gwener Medi 16eg cyn mynd i'r Senedd i dderbyn neges o gydymdeimlad gan Lywodraeth Cymru ac i gwrdd â'r Prif Weinidog a'r Llywydd yng Nghastell Caerdydd.

## MAE'R PARATOADAU'N CYCHWYN

Llenwi tyllau





Stepiau'r Deon erioed mor lân



Dim chwyn – duo'r pyst-lampau



a'u diogelu.



Y biniau hefyd



…a'r blwch post






Sgrwbio'r pafin



Amlygu'r lliwiau!



Codi canolfan Deledu



Dim ceir



Gosod sgrin wylio enfawr



Nawr rhaid i Canon Buckley giwio i'r toiled hefyd!

# DYDD GWENER YN CYRRAEDD – GYDA DIOGELWCH LLAWN








Heddlu a stiwardiaid diogelwch dymunol yn cyrraedd o dros Dde Cymru - Heddlu arfog yn gwylio . O'r diwedd mae popeth yn barod ….



Mae'r bobl yn aros ………




Modurgad yn dod â'r Brenin o'i hofrennydd yng Nghaeau Pontcanna

(Llun uchod - Alun Salisbury)



Y Car brenhinol yn cyrraedd y Green



a'r cynnwrf yn cynyddu



Canon Buckley yn ymuno i mewn



Croesawu



mynd i mewn i'r Eglwys Gadeiriol




a chymryd eu llefydd

CYNNAL GWASANAETH COFFA AML-FFYDD



ARWYDDO'R  LLYFR COFNODION



CERDDED O GWMPAS BRENHINOL ................................................................................................................. YNA'R BRENIN YN GADAEL AM Y SENEDD







**DYDD LLUN 19EG MEDI**

**CAPEL SAN SIÔR WINDSOR**



